Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Ysgol Ardudwy.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Byddi di'n :

- dysgu sut i siarad ac ysgrifennu'r iaith yn hyderus ac yn frwdfrydig;
- datblygu sgil sydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr heddiw;
- dysgu am wlad arall a'i diwylliant;
- cael y cyfle i ddeall meysydd eraill o'r cwricwlwm trwy iaith arall e.e. celf, hanes a mathemateg.

Sut y byddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs TGAU Ffrangeg yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu'r sgiliau sylfaenol, siarad darllen ac ysgrifennu trwy weithgareddau sydd yn rhyngweithiol ac yn ennyn diddordeb. Daw disgyblion i gyffwrdd â'r iaith trwy dechnoleg amlgyfrwng, gweithgareddau dosbarth amrywiol.

Sut y Byddaf yn cael fy asesu?

Bydd arholiadau terfynol mewn gwrando a darllen sydd yn werth 20% yr un o'r radd derfynol. Yn ogystal byddi'n cwblhau'r gwaith cwrs ysgrifenedig ac asesiad llafar yn y dosbarth gwerth 30% yr un o'r marciau.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli fynd ymlaen i astudio Ffrangeg Safon A a fydd yn ei dro yn dy alluogi i fynd ymlaen i Brifysgol i astudio'r iaith, neu efallai treulio amser yn teithio mewn gwlad lle siaredir Ffrangeg. Ar ôl cwblhau cwrs TGAU Ffrangeg bydd gennyt ddigon o'r iaith i allu goroesi mewn amgylchedd Ffrengig.

Syniadau am Swyddi

- Criw awyren
- Dehonglydd
- Gweithio mewn maes awyr/porthladd
- Athro/athrawes
- Cynrychiolydd gwyliau/tywysydd gwyliau
- Peiriannydd
- Dysgu Saesneg fel iaith fodern
- Gweithio i gwmnioedd rhyngwladol
- Rheolwr gwesty

A wybodaeth pellach cysylltwch â:

Miss Catrin O'Regan, Ysgol Ardudwy.

Ffrangeg TGAU

Ymlaen

Ysgol Eifionydd Porthmadog